
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 558

**Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio)
(Adeiladau Ynni a Eithrir) (Cymru) 2018**

RHAN 2

Rheoliadau Adeiladu 2010

Rhan 2 (rheoli gwaith adeiladu)

- 4.—(1) Yn rheoliad 4 (gofynion sy'n ymwneud â gwaith adeiladu)—
- (a) ym mharagraff (1)(b) hepgorer y geiriau o “, except as may” hyd at y diwedd;
 - (b) hepgorer paragraffau (1A) i (1D).
- (2) Yn rheoliad 6 (gofynion sy'n ymwneud â newid defnydd sylweddol)—
- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn is-baragraff (i) yn lle “M1 (access to and use of buildings other than dwellings)” rhodder “M1 (access and use)”;
 - (ii) hepgorer is-baragraff (j);
 - (b) ym mharagraff (2)—
 - (i) ar ddiwedd is-baragraff (c) mewnosoder “and”;
 - (ii) hepgorer is-baragraff (e).
- (3) Yn rheoliad 8 (cyfyngiadau ar ofynion) ar ôl “K” mewnosoder “, N”.
- (4) Yn rheoliad 9 (adeiladau a gwaith esempt)—
- (a) ym mharagraff (3)(a) hepgorer “used for domestic purposes”;
 - (b) yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) The requirements of paragraph R1 of Schedule 1 apply to buildings controlled under other legislation falling within class 1 in Schedule 2.”
- (5) Yn rheoliad 11(3) (pŵer i hepgor neu lacio gofynion)—
- (a) ar ôl “25B” hepgorer “and”;
 - (b) ar ôl “paragraph R1” hepgorer “(in-building physical infrastructure for high-speed electronic communications networks)”.